# Adroddiad Blynyddol 2019/20

## Cyng. John Brynmor Hughes

## Annibynnol

## Ward Llanengan



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

# Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

Yn fy rôl fel Cynghorydd Sir Gwynedd, rwyf nid yn unig yn aelod o'r Cyngor Llawn, ond rwyf hefyd yn :

- Gadeirydd Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Aelod o Banel Buddsoddi Cronfa Pensiwn Gwynedd
- Aelod o Bwyllgor Trwyddedu
- Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Aelod o Grŵp Herio Perfformiad
- Aelod o Bwyllgor Ardal Dwyfor
- Aelod o Bwyllgor AHNE
- Aelod o'r Fforwm Craffu
- Eistedd ar Fwrdd Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru – hynny yw y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Pensiwn
- Llywodraethwr yn Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Foel Gron
- Eistedd i mewn ym mhwyllgorau y Cyngor Plwyf

Er nad wyf wedi cadw rhestr o'r nifer y cyfarfodydd y bu i mi eu mynychu, mae yn wir dweud nad wyf wedi methu bod yn bresennol mewn llawer o gyfarfodydd

Yn aml rwyf yr unig aelod o Gyngor Gwynedd yn bresennol mewn cyfarfodydd Tan ac Achub.

Rwyf yn gweithio gydag Adran Cynllunio y Cyngor i geisio cefnogi mwy ar yr ifanc sydd yn yr ardal.

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

'Rwyf hefyd yn cefnogi y gymuned gan fy mod yn :

- Gyfarwyddwr Cwmni Tafarn yr Haul Cyf.
- Aelod o Bwyllgor Clwb Golf Abersoch
- Commodore Regatta Abersoch
- Rheolwr Cronfa er cof am fy mab William Naden Hughes

| | |
|---|---|
| Ail Fodelu Gofal Cartref | 20/05/2019 |
| Ymwybyddiaeth Awtistiaeth | 15/05/2019 |